



## Cod Moeseg

(Mabwysiadwyd y cod yng nghyfarfod blynyddol ILTA, a gynhaliwyd yn Vancouver, Mawrth 2000). (Cymeradwywyd mân gywiriadau gan Bwyllgor Gwaith ILTA, Ionawr 2018).

Mae hwn, y Cod Moeseg cyntaf a baratowyd gan y Gymdeithas Ryngwladol i Brofi Ieithoedd (ILTA), yn gyfres o egwyddorion a seilir ar athroniaeth foesol ac sydd yn ganllaw ar gyfer ymddygiad proffesiynol da. Nid yw'n statud nac yn rheoliad, ac nid yw'n rhoi canllawiau ar gyfer gweithredu, ond fe'i bwriedir fel meincnod ar gyfer ymddygiad moesegol boddhaol gan bob un sydd yn profi ieithoedd. Fe'i cysylltir â Chanllawiau Ymarfer (ar gael ar wefan ILTA) sydd ar wahân. Seilir y Cod Moeseg ar gyfuniad o'r egwyddorion hyn: cymwynasgarwch, osgoi niwed, cyfiawnder, parch at ymreolaeth ac at gymdeithas wâr.

Mae'r Cod Moeseg hwn yn cyfeirio at 9 o egwyddorion sylfaenol, ac fe ymhelaethir ar y rhain drwy gyfres o nodiadau sydd yn egluro natur yr egwyddorion yn gyffredinol; maent yn rhagnodi beth y dylai aelodau ILTA ei wneud neu beidio â'i wneud, neu'n fwy cyffredinol, sut y dylent ymddwyn neu beth y dylent anelu ato, neu y dylai'r maes anelu ato; maent hefyd yn cyfeirio at yr anawsterau a'r eithriadau sy'n rhan o weithredu'r egwyddorion. Mae'r Nodiadau'n ymhelaethu ymhellach ar sancsiynau'r Cod, ac yn ei gwneud yn glir y gall methu â chynnal y Cod ddod â chosb ddifrifol yn ei sgil, fel gwahardd aelodaeth o ILTA yn ôl cyngor Pwyllgor Moeseg ILTA.

Er bod y Cod yn deillio o godau moeseg tebyg (â hanes hir iddynt), mae'n ceisio adlewyrchu cydbwysedd y gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol ar draws y byd, sydd byth a hefyd yn newid, ac am y rheswm hwnnw, dylid ei ddehongli gan brofwyr ieithoedd law yn llaw â'r Canllawiau Ymarfer cysylltiol.

Dylai pob cod proffesiynol ddylanwadu ar gydwybod a barn broffesiynol. Nid yw Cod Moeseg ILTA yn rhyddhau profwyr ieithoedd o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd arnynt drwy Godau eraill y maent yn eu harddel, nac ychwaith o'r codau cyfreithiol, cenedlaethol a rhyngwladol y gallant fod yn ddarostyngedig iddynt.

Mae profwyr ieithoedd yn asiantau moesol annibynnol, ac weithiau bydd ganddynt safbwynt moesol, personol sy'n gwrthdaro â chymryd rhan mewn rhai gweithdrefnau. Mae ganddynt hawl foesol i wrthod cymryd rhan mewn gweithdrefnau a fyddai'n groes i'w cred foesol. Mae gan brofwyr ieithoedd sydd yn derbyn swyddi lle gallant ragweld bod gofyn iddynt gymryd rhan mewn sefyllfaoedd sydd yn groes i'w cred gyfrifoldeb i roi gwybod am hyn i'w cyflogwr neu i'w darpar gyflogwr. Mae cyfrifoldeb ar gyflogwyr a chydweithwyr i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn y profwyr ieithoedd hynny yn eu lle gwaith.

Ceir enghreifftiau o sut y gweithredir y Cod Moeseg yn y Canllawiau Ymarfer (ar gael ar wefan ILTA). Lle bo'r Cod Moeseg yn canolbwyntio ar foesau a delfrydau'r maes, mae'r Canllawiau Ymarfer yn nodi'r gofynion hanfodol i allu gweithio yn y maes ac yn canolbwyntio ar egluro camymddwyn proffesiynol, ac ymddygiad amhroffesiynol.

Rhaid i'r Cod Moeseg a'r Canllawiau Ymarfer ymateb i anghenion a newidiadau o fewn y maes, ac ymhen amser, bydd rhaid adolygu'r Codau hyn i ymateb i newidiadau ym maes profi ieithoedd ac mewn cymdeithas. Adolygir y Cod Moeseg o fewn pum mlynedd, neu cyn hynny os bydd angen.

## **Egwyddor 1**

Bydd profwyr ieithoedd yn parchu dynoliaeth ac urddas pob un o'u hymgeiswyr. Byddant yn rhoi pob ystyriaeth broffesiynol bosibl iddynt ac yn parchu anghenion, gwerthoedd a diwylliannau pob person wrth ddarparu'r gwasanaeth profi ieithoedd.

### **Nodiadau**

- Ni fydd profwyr ieithoedd yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail oed, rhyw, hil, ethnigrwydd, rhywedd, cefndir iaith, cred, gwleidyddiaeth na chrefydd nac yn gorfodi eu gwerthoedd eu hunain (er enghraifft, gwerthoedd cymdeithasol, ysbrydol, gwleidyddol ac ideolegol) i'r graddau y maent yn ymwybodol ohonynt.
- Ni fydd profwyr ieithoedd byth yn manteisio mewn ffordd annheg ar eu cleientiaid, nac yn ceisio dylanwadu arnynt mewn ffyrdd nad ydynt yn berthnasol i nodau'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu neu'r ymchwiliad y maent yn ei gynnal.
- Mae perthynas rywiol rhwng profwyr ieithoedd a'u hymgeiswyr bob amser yn groes i'r cod moesegol.
- Mae addysgu profi ieithoedd ac ymchwilio iddo, lle bo ymgeiswyr yn cael eu defnyddio (gan gynnwys myfyrwyr), yn golygu bod rhaid cael eu caniatâd; mae hefyd yn gofyn iddynt barchu eu hurddas a'u preifatrwydd. Dylid rhoi gwybod i'r rhai sydd ynghlwm â hyn na fydd gwrthod cymryd rhan yn effeithio ar ansawdd gwasanaeth y profwyr ieithoedd hynny, (wrth addysgu, ymchwilio, datblygu nac wrth weinyddu). Mae defnyddio pob cyfrwng (papur, electronig, fideo, sain) sy'n cynnwys ymgeiswyr yn gofyn am gydsynio gwybodus, cyn y gellir eu defnyddio at ddibenion eilaidd.
- Bydd profwyr ieithoedd yn ceisio trosglwyddo'r wybodaeth y maent yn ei chynhyrchu i'r holl randdeiliaid perthnasol mewn ffordd mor ystyrlon â phosibl.
- Lle bo'n bosib, dylid ymgynghori ag ymgeiswyr mewn perthynas â phob mater sy'n ymwneud â'u buddiannau.

## **Egwyddor 2**

Bydd profwyr ieithoedd yn cadw pob gwybodaeth a gafwyd am yr ymgeiswyr trwy eu rôl broffesiynol yn gyfrinachol a byddant yn defnyddio barn broffesiynol wrth rannu'r wybodaeth honno.

### **Nodiadau**

- Yn wyneb defnydd helaeth o ddeunydd a lungopiwyd a ffacs, cofnodion profion ar gyfrifiadur a chronfeydd data, galw cynyddol am atebolrwydd o ffynonellau gwahanol a natur bersonol yr wybodaeth a geir oddi wrth ymgeiswyr, mae dyletswydd ar brofwyr ieithoedd i barchu hawl yr ymgeiswyr i gyfrinachedd ac i warchod pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r berthynas rhyngddynt.

- Ni all cyfrinachedd fod yn absoliwt, yn enwedig lle bo'r cofnodion yn ymwneud â myfyrwyr sydd yn cystadlu am fynediad a phenodiadau. Rhaid cynnal cydbwysedd gofalus rhwng cadw cyfrinachedd fel agwedd sylfaenol ar ddyletswydd broffesiynol y profwyr ieithoedd a'r cyfrifoldeb ehangach sydd arnynt i gymdeithas yn gyffredinol.
- Felly hefyd, mewn achosion priodol, bydd gan gydweithwyr proffesiynol y profwyr ieithoedd yr hawl i gael mynediad i ddata ymgeiswyr nad ydynt yn ymwneud â nhw'n uniongyrchol, er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir gan y proffesiwn. Mewn achosion o'r fath, dylai'r rhai sy'n cael mynediad i ddata gytuno i gynnal cyfrinachedd.
- Mae data am ymgeiswyr a gesglir o ffynonellau eraill, yn ogystal â'r rhai a gesglir gan yr ymgeiswyr yn uniongyrchol (er enghraifft, gan athrawon y myfyrwyr sydd dan brawf) yn ddarostyngedig i'r un egwyddorion cyfrinachedd.
- Gall fod gofynion statudol yn ymwneud â rhyddhau gwybodaeth, e.e. pan fydd profwyr ieithoedd yn cael eu galw fel tystion arbenigol mewn llysoedd barn neu driwlysoedd. Dan amgylchiadau o'r fath, rhyddheir y profwyr ieithoedd o'u dyletswydd broffesiynol i gynnal cyfrinachedd.

### **Egwyddor 3**

Dylai profwyr ieithoedd gadw at yr holl egwyddorion moesegol perthnasol a ymgorfforir mewn canllawiau cenedlaethol a rhyngwladol, wrth ymgymryd ag unrhyw dreialu, arbrawf, triniaeth neu weithgaredd ymchwil arall.

### **Nodiadau**

- Mae cynnydd mewn profi ieithoedd yn dibynnu ar ymchwil, sydd o raid yn golygu bod pobl yn cymryd rhan. Bydd yr ymchwil hwn yn cydymffurfio ag egwyddorion ymchwil academiaidd a dderbynnir yn gyffredinol, ar sail gwybodaeth drylwyr o'r llenyddiaeth broffesiynol; gan gynllunio a gweithredu yn ôl y safonau uchaf.
- Rhaid cyfiawnhau pob ymchwil; hynny yw, gellir disgwyl yn rhesymol fod yr astudiaethau y bwriedir eu gwneud yn cynnig atebion i'r cwestiynau a godir.
- Bydd hawliau dynol gwrthrych yr ymchwil bob amser yn dod o flaen buddiannau gwyddoniaeth neu gymdeithas.
- Lle bo annifyrrwch neu risg i wrthrych yr ymchwil, dylid ystyried buddiannau'r ymchwil hwnnw, ond ni ddylid eu defnyddio i gyfiawnhau unrhyw annifyrrwch neu risgiau o'r fath. Os bydd effeithiau niweidiol nad oedd modd eu rhagweld yn digwydd, dylid atal yr ymchwil neu ei addasu bob tro.
- Dylai Pwyllgor Moeseg annibynnol werthuso pob cynnig ymchwil er mwyn sicrhau bod astudiaethau'n cydymffurfio â'r safonau gwyddonol a moesegol uchaf.
- Rhoddir gwybod i wrthrych yr ymchwil am wybodaeth berthnasol am y nodau, dulliau, risg ac annifyrrwch yr ymchwil ymlaen llaw. Trosglwyddir yr wybodaeth hon mewn ffordd sy'n gwbl ddealladwy. Bydd cydsyniad yn rhydd, heb bwysau na gorfodaeth.
- Bydd y gwrthrych yn rhydd i wrthod cymryd rhan yn yr ymchwil neu i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi canlyniadau'r ymchwil. Ni fydd y fath wrthodiad yn peryglu'r modd y caiff y gwrthrych ei drin.
- Cymerir gofal arbennig wrth gael cydsyniad ymlaen llaw gan wrthrychau sydd mewn perthynas ddibynnol (er enghraifft, myfyrwyr, yr henoed, dysgwyr llai hyfedr).

- Lle bo rhai dan oedran dan sylw, rhaid ceisio cydsyniad rhiant neu warchodwr ond hefyd gan y plentyn os bydd yn ddigon aeddfed i fedru deall.
- Ni ddefnyddir gwybodaeth gyfrinachol a gafwyd yn ystod yr ymchwil at ddibenion eraill heblaw am y rhai a nodwyd yn y cynllun ymchwil a gymeradwywyd.
- Bydd y canlyniadau ymchwil a gyhoeddir yn wir ac yn gywir.
- Ni fydd cyhoeddi adroddiadau ymchwil yn caniatáu adnabod gwrthrychau a fu'n rhan o'r ymchwil.

#### **Egwyddor 4**

Ni fydd profwyr ieithoedd yn caniatáu camddefnydd o'u gwybodaeth broffesiynol neu'u sgiliau, cyhyd bod hynny'n bosibl.

#### **Nodiadau**

- Ni fydd profwyr ieithoedd o fwriad yn defnyddio'u gwybodaeth broffesiynol neu'u sgiliau i hybu dibenion sy'n groes i fuddiannau eu hymgeiswyr. Lle bo ymyrraeth y profwyr ieithoedd heb fod o fudd uniongyrchol i'r ymgeiswyr (er enghraifft lle bo gofyn iddynt weithredu fel ymgeiswyr ar gyfer prawf hyfedredd a luniwyd ar gyfer sefyllfa arall), gwneir ei bwrpas yn gwbl eglur.
- Lle na fydd ymgeiswyr yn cydymffurfio â gwerthoedd moesol neu grefyddol cyfredol y gymdeithas, neu lle bo ganddynt statws fel mewnfudwr digroeso, ni fydd hynny'n ffactor wrth asesu hyfedredd iaith.
- Beth bynnag fo'r amgylchiadau cyfreithiol, ni fydd profwyr ieithoedd yn cymryd rhan, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn arteithio, neu ffyrdd creulon, annynol eraill o gosbi (gw. Datganiad Tokyo 1975).

#### **Egwyddor 5**

Bydd profwyr ieithoedd yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol, gan rannu'r wybodaeth hon â chydweithwyr ac ymarferwyr proffesiynol ym maes ieithoedd.

#### **Nodiadau**

- Mae dysgu parhaus ac ehangu gwybodaeth yn sylfaenol i'r rôl broffesiynol; mae methu â gwneud hynny'n gwneud anghymwynas ag ymgeiswyr.
- Bydd profwyr ieithoedd yn gwneud defnydd o'r ffyrdd amrywiol o addysg barhaus sydd ar gael iddynt. Gall hyn gynnwys cymryd rhan mewn rhaglenni parhaus ar gyfer profi ieithoedd a chynadleddau proffesiynol, a darllen cyhoeddiadau proffesiynol perthnasol yn gyson.
- Bydd profwyr ieithoedd yn manteisio ar y cyfle i ryngweithio â chydweithwyr ac ymarferwyr proffesiynol eraill ym maes ieithoedd fel modd pwysig o ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol.
- Bydd profwyr ieithoedd yn rhannu gwybodaeth newydd â chydweithwyr trwy gyhoeddi mewn cylchgronau proffesiynol neu mewn cyfarfodydd.
- Disgwylir i brofwyr ieithoedd gyfrannu at addysg a datblygiad proffesiynol profwyr ieithoedd dan hyfforddiant ac wrth lunio'r canllawiau ar gyfer gofynion craidd yr hyfforddiant hwnnw.

- Bydd profwyr ieithoedd yn barod i gyfrannu at addysg eu myfyrwyr mewn swyddi eraill yn ymwneud ag ieithoedd.

## **Egwyddor 6**

Bydd profwyr ieithoedd yn rhannu'r cyfrifoldeb o gynnal hygreddedd proffesiynol eu maes.

### **Nodiadau**

- Bydd profwyr ieithoedd yn hyrwyddo hygreddedd eu proffesiwn trwy feithrin ymdeimlad o ymddiriedaeth a chydgyfrifoldeb ymysg cydweithwyr. Lle bo gwahaniaeth barn, dylid mynegi safbwyntiau'n groyw ac â pharch, yn hytrach na dilorni eraill.
- Mae profwyr ieithoedd yn datblygu normau ar ran cymdeithas ac yn eu gweithredu. O'r herwydd, maent mewn safle breintiedig, sy'n dwyn yn ei sgil ddyletswydd i gynnal safonau personol a moesol priodol yn eu harferion proffesiynol, ac yn yr agweddau hynny ar eu bywyd personol a all adlewyrchu ar hygreddedd yr arferion hynny.
- Bydd profwyr ieithoedd sy'n dod yn ymwybodol o ymddygiad amhroffesiynol gan gydweithiwr yn gweithredu'n briodol; gall hyn gynnwys rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol.
- Bydd methu â chynnal y Cod Moeseg hwn yn cael ei drin fel mater difrifol iawn a all arwain at gosb lem, gan gynnwys gwaharddiad rhag bod yn aelod o ILTA.

## **Egwyddor 7**

Bydd profwyr ieithoedd yn eu rôl gymdeithasol yn ceisio gwella ansawdd eu profion iaith, gwasanaethau asesu ac addysgu, hyrwyddo rhannu'r gwasanaethau hynny mewn ffordd gyfiawn a chyfrannu at addysg y gymdeithas mewn perthynas â dysgu iaith a hyfedredd iaith.

### **Nodiadau**

- Mae gan brofwyr ieithoedd ddyletswydd arbennig i hyrwyddo gwella'r ddarpariaeth/gwasanaethau profi ieithoedd yn sgil y ffaith fod llawer o'u hymgeiswyr wedi'u difreinio ac yn ddi-rym oherwydd nad ydynt yn siaradwyr brodorol.
- Yn rhinwedd eu gwybodaeth a'u profiad, bydd profwyr ieithoedd yn barod i gynghori'r sawl sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau profi ieithoedd.
- Bydd profwyr ieithoedd yn barod i weithredu fel cefnogwyr ac i ymuno ag eraill i sicrhau bod gan ymgeiswyr y gwasanaeth profi ieithoedd gorau posibl ar gael iddynt.
- Bydd profwyr ieithoedd yn barod i gydweithio â sefydliadau ymgynghorol, statudol, gwirfoddol a masnachol sydd â rôl i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau profi ieithoedd.
- Bydd profwyr ieithoedd yn gweithredu'n briodol os bydd gwasanaethau'n disgyn dan y safonau gofynnol, oherwydd cyfyngiadau ariannol neu reswm arall. Mewn amgylchiadau eithriadol gall fod rhaid i brofwyr ieithoedd ddatgysylltu'u hunain o'r fath wasanaethau, cyhyd â bod hyn ddim niweidiol i'w hymgeiswyr.
- Bydd profwyr ieithoedd yn barod i ddehongli gwybodaeth berthnasol wyddonol a barn broffesiynol i gymdeithas, a'i dosbarthu. Wrth wneud hyn, bydd profwyr

ieithoedd yn egluro eu statws naill ai fel lladmeryddion dros gorff proffesiynol cydnabyddedig neu beidio. Os bydd y safbwyntiau a fynegir yn groes i'r rhai a arddelir yn gyffredinol, byddant yn nodi hynny.

- Mae'n rhesymol fod profwyr ieithoedd yn gwneud cyfraniadau i'r ddadl gyhoeddus ar faterion sosio-wleidyddol sensitif, lle bo'r cyfraniadau ar sail wyddonol, er enghraifft, hil, anfantais a magu plant.
- Bydd profwyr ieithoedd yn gwahaniaethu rhwng eu rôl fel addysgwyr ar sail gwybodaeth broffesiynol a'u rôl fel dinasyddion.
- Wrth gyflawni eu dyletswyddau dan yr egwyddor hon, bydd profwyr ieithoedd yn gofalu rhag hybu'u hunain a dilorni cydweithwyr.
- Bydd profwyr ieithoedd yn ei gwneud yn glir nad ydynt yn honni (ac nad ydynt i'w gweld yn honni) mai nhw yn unig sy'n meddu ar yr wybodaeth berthnasol i gyd.

## **Egwyddor 8**

Bydd profwyr ieithoedd yn ymwybodol o'u dyletswyddau mewn perthynas â'r gymdeithas lle maent yn gweithio, gan gydnabod y gall y dyletswyddau hynny wrthdaro â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'u hymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill.

### **Nodiadau**

- Lle bo canlyniadau profion wedi eu cael ar ran sefydliadau (adrannau'r llywodraeth, cyrff proffesiynol, prifysgolion, ysgolion, cwmnïau) mae gan brofwyr ieithoedd ddyletswydd i drosglwyddo'r canlyniadau hynny'n gywir, waeth pa mor anodd fydd hynny i'r ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill (teuluoedd, darpar gyflogwyr ac ati).
- Fel aelodau o'r gymdeithas lle maent yn gweithio, dylai profwyr ieithoedd gydnabod eu dyletswyddau i anghenion profi yn y gymdeithas honno, hyd yn oed lle na fyddont eu hunain yn cytuno â nhw. Lle bo eu hanghytundeb yn ddigon cryf i'w gyfrif yn wrthwynebiad cydwybodol, dylai fod ganddynt yr hawl i atal eu gwasanaethau proffesiynol.

## **Egwyddor 9**

Bydd profwyr ieithoedd yn ystyried effeithiau posibl, tymor byr a thymor hir ar holl rhanddeiliaid eu projectau'n gyson, gan gadw'r hawl i atal eu gwasanaethau proffesiynol ar sail cydwybod.

### **Nodiadau**

- Fel gweithwyr proffesiynol, mae gan brofwyr ieithoedd gyfrifoldeb i werthuso goblygiadau moesegol y projectau a gynigir iddynt. Er na allant ystyried pob deilliant posibl, dylent fynd ati i werthuso'r canlyniadau tebygol yn drylwyr a, lle bo'r rheiny'n annerbyniol yn ôl eu barn broffesiynol, i atal eu gwasanaeth. Mewn achosion felly, dylent ymgynghori â phrofwyr ieithoedd eraill i ganfod i ba raddau y rhennir yr un safbwynt, gan gadw'r hawl, lle bo cydweithwyr yn arddel safbwynt gwahanol, i wneud safiad unigol ar sail cydwybod.

© Hawlfraint ILTA

*Cyfieithiad Cymraeg / Welsh translation, 2018:*

Cyfieithydd/translator: Emyr Davies (CBAC, Cymru / WJEC, Wales)

Adolygydd/reviewer: Steve Morris (Prifysgol Abertawe, Cymru / Swansea University, Wales)